

STFC Benthycu'r Lleud – Cyflwyniad Cymraeg

Sefydlwyd Cynllun *STFC Lunar Rocks and Meteorites Loan* ers canol y 1980au. Mae wedi benthycu meteorynnau a disgiau craig Lleud *NASA* i filoedd o ysgolion, amgueddfeydd a threfnwyr gwaith allanol.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys Ffeithiau allweddol a Chwestiynau cyffredin (FAQ) am y cynllun yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae gweddill y deunyddiau ar gyfer y cynllun yn Saesneg yn unig (gan gynnwys dolenni'r ddogfen hon).

Ffeithiau allweddol

Mae gan STFC chwe bocs "Benthycu'r Lleud" i ysgolion. Mae pob un yn cynnwys yr un math o samplau meteorynnau a chreigiau, cyfarpar ymchwiliad a chanllawiau. Am fwy o wybodaeth am y cynnwys ewch i [Beth sy'n y bocs](#). Ers dechrau'r cynllun, mae cannoedd o ysgolion, colegau, prifysgolion, amgueddfeydd a chymdeithasau seryddol ar hyd y Deyrnas Unedig wedi mwynhau'r samplau.

Cyfnod benthycu arferol yw wythnos ysgol: dydd Llun i ddydd Gwener. Er mwyn sicrhau eich cynllun benthycu rhwch gais o leiaf 4 mis cyn bod angen y bocs benthycu yn eich ysgol.

Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau'n ddefnyddiol i fenthycwyr mae STFC yn gofyn i bob benthyciwr gwblhau ffurflen werthuso ar ôl iddyn nhw fenthycu y bocs benthycu. Gallwch chi gwblhau'r [ffurflen werthuso ar-lein](#).

Y bocsys benthycu:

- Mae samplau'r lleud yn cael eu cyflwyno mewn disgiau wedi eu cau er mwyn eu trin yn ofalus
- Mae samplau'r lleud yn gallu bod yn gyffrous i edrych arnynt i bawb o blentyn ifanc i fyfyrwyr daeareg.
- Mae pob bocs benthycu hefyd yn cynnwys gwahanol esiamplau o feteorynnau, gan STFC a'r Ganolfan Ofod Cenedlaethol
- Mae pob bocs benthycu yn cynnwys darnau mawr o feteorynnau sy'n gallu cael eu trin
- Mae pob bocs benthycu hefyd yn cynnwys gweithgaredd heliwr meteorynnau sy'n cynnwys creigiau a meteorynnau Daear.
- Mae deunydd cefnogi cynhwysfawr wedi'i gynnwys gyda phob benthyciad gan gynnwys gweithgareddau addysgol wedi eu hysgrifennu gan yr Academi Ofod Cenedlaethol.

Hefyd, mae gan STFC gasgliad o rannau tenau creigiau'r lleud sy'n gallu cael eu benthycu gan fyfyrwyr Prifysgol ar gyfer eu hastudiaethau.

Cwestiynau Cyffredin am Fenthyca'r Lleuad

Edrychwch ar y cwestiynau ac atebion isod i weld os oes gwybodaeth ddefnyddiol i'ch help gyda'ch ymholiad.

1. **Faint o Samplau'r Lleuad sydd gan STFC?**

Mae gan STFC chwe set o samplau ar gael i fenthyca, ac un set sydd ar fenthyg rhannol barhaol i Amgueddfa Lerpwl ac un set o rannau tenau (thin sections) sy'n gallu cael eu benthyca gan brifysgolion. Am fwy o wybodaeth am y rhannau tenau cysylltwch â'r Cydlynnydd Benthyca.

2. **Pwy yw perchennog y samplau?**

STFC sydd berchen y meteorynnau.

3. **Sut mae samplau'r lleuad yn edrych?**

Mae creigiau'r lleuad wedi eu cyflwyno mewn cas Perspex sy'n cynnwys samplau o wahanol fathau o bridd a chreigiau'r lleuad. Hefyd, mae rhai samplau ar sleidiau microsgop (sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel 'rhannau tenau' *thin sections*) sy'n cael ei fenthyca gan STFC i fyfyrwyr prifysgol yn unig.

4. **Ga i gyffwrdd creigiau'r lleuad?**

Yn anffodus, na, mae'r samplau wedi eu selio yn barhaol yn y cas Perspex i'w hamddiffyn a sicrhau bod cenedlaethau o blant ysgol yn cael y cyfle i'w gweld.

5. **Sut mae'r meteorynnau yn edrych?**

Mae amrywiaeth o feteorynnau ymhob bocs benthyca: mae pob bocs yn cynnwys samplau mawr o feteorynnau sy'n gallu eu trin yn uniongyrchol, yn ogystal â rhai llai sydd angen eu cadw mewn cas plastig. Er mwyn gweld mewn mwy o fanylder beth sy'n y bocs benthyca ewch i [Beth sydd yn y Bocs](#) a'r Galeri Meteorynnau *Virtual* (yn fuan).

6. **Faint mae'n costio i fenthyca?**

Mae'r benthyciad samplau yn rhad ac am ddim.

7. **Oes angen yswirio samplau'r bocs benthyca?**

Na, mae'r samplau yn amhrisiadwy ac anyswiariadwy – dyma pam rhaid i'r Cydlynnydd Benthyca ymweld â'ch sefydliad er mwyn gwneud archwiliad diogelwch cyn i ni gytuno'r benthyciad.

8. **Sut ydw i'n archebu bocs benthyca?**

Gallwch chi lawrlwytho ffurflen gais a [rheolau diogelwch i fenthycwyr](#) o wefan STFC. Cyn cwblhau'r ffurflen gais darllenwch y rheolau diogelwch i fenthycwyr yn ofalus a chysylltwch gyda'r Cydlynnydd Benthyca i wirio bod y dyddiadau rydych chi eisiau'r bocs benthyca ar gael. Mae'r cynllun yn boblogaidd iawn, ac oherwydd bod angen trefnu ymweliad diogelwch cyn y tro cyntaf i fenthycwyr dderbyn y bocs, byddwch yn ymwybodol efallai y bydd angen i chi sicrhau'r bocs hyd at 4 mis ymlaen llaw.

9. **Faint ymlaen llaw mae angen i mi archebu samplau'r lleuad?**

Gellir cadw'r samplau wrth gefn hyd at flwyddyn ymlaen llaw – y lleiafswm dylech chi ganiatáu yw pedwar mis. Fodd bynnag yn aml mae dyddiadau poblogaidd wedi eu sicrhau misoedd o flaen llaw, felly gwiriwch hyn gyda STFC cyn rhoi eich ffurflen gais i mewn.

10. **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Os yw'r dyddiadau rydych chi angen ar gael bydd y Cydlynnydd Benthycyca yn sicrhau eich lle dros dro. Byddan nhw'n trefnu i ymweld â chi i archwilio eich trefniadau diogelwch a chwblhau'r gwaith papur. Yn ystod yr amser hwn gallwch chi holi mwy o gwestiynau am y broses benthycyca.

11. **Hoffwn i fenthycyca'r samplau – ond does gen i ddim lle i'w storio'n ddiogel.**

Os ydych chi'n ansicr am ddiogelwch eich sefydliad, cysylltwch â'r Cydlynnydd Benthycyca Samplau'r Lleuad, a fydd yn falch i'ch cyngori.

12. **Hoffwn i fenthycyca'r samplau, ond rydw i'n ansicr sut i wneud y defnydd gorau ohonyn nhw – oes unrhyw awgrymiadau?**

Mae pob bocs benthycyca gydag amrywiaeth o ddeunyddiau cefnogi ar ffurf canllaw athro/awes, ynghyd â llyfr meteorynnau a map y lleuad, a fydd yn gymorth gyda chynllunio gwersi a chynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau. Gallwch chi gael cipolwg o'r canllaw athro/awes a dolenni addysgol defnyddiol yma (yn fuan). Bydd gan y Cydlynnydd Benthycyca fwy o wybodaeth am hyn pan fyddan nhw'n ymweld â'ch sefydliad.

13. **Ble mae mwy o wybodaeth am greigiau lleuad?**

Ewch i wefannau swyddogol NASA:

- [NASA Curation](#)
- [Lunar/Meteorite Sample Loan Program](#) – *Nodwch os ydych chi'n Y Deyrnas Unedig ni allwch chi fenthycyca'r samplau trwy'r wefan.*

Gallwch chi hefyd ddarganfod mwy am greigiau lleuad o'r [Ganolfan Ofod Cenedlaethol](#).

14. **Ble mae mwy o wybodaeth am feteorynnau?**

Gallwch chi ddod o hyd i fwy o wybodaeth am feteorynnau gan NASA ar eu gwefan archwiliad system solar gyda [disgrifiad syml yma](#) a [mwy o wybodaeth fanwl yma](#). Mae gan yr [Amgueddfa Hanes Naturiol](#) wybodaeth ar-lein am eu casgliad o feteorynnau, yn cynnwys rhai tebyg iawn i'r rhai yn y bocs benthycyca, fel sydd gan y [Ganolfan Ofod Cenedlaethol](#). Gallwch chi hefyd ddarganfod mwy am y cynllun benthycyca meteorynnau trwy'r Galeri Meteorynnau (yn fuan).

15. **Mae Nodiadau Benthycwyr yn cyfeirio at 'Rannau Tenau'(Thin Sections) – Beth yw rhannau tenau?**

Rhannau tenau yw darnau tenau iawn o graig sy'n gallu eu gweld â microsgop *petrograffig*. Grwpiau prifysgol yn unig ddylai gael benthycyca a defnyddio'r rhannau tenau gan STFC, fodd bynnag mae pob bocs benthycyca yn cynnwys co-bach gyda delweddau digidol o'r rhannau tenau i bawb ddefnyddio.

16. **Rydw i wedi clywed mai twyll oedd glanio ar y lleuad – a oes unrhyw brawf bod Americanwyr wedi mynd i'r lleuad?**

Mae llawer o wefannau am y 'Theori Twyll' (*Hoax Theory*) ar y we. Ewch i wefan [Bad Astronomy](#) am ddolenni gwefannau *Hoax Supporter* a *Hoax Debunker*.

17. **Mae ein sefydliad wedi cwblhau ein cyfnod benthycyca, sut ydw i'n rhoi adborth ar ein profiad?**

Hoffwn glywed gennych chi, llenwch y [ffurflen gwerthuso ar-lein](#).